
Sblintiau Newydd Celine
Cyd-ysgrifennwyd gan Celine a Scope
Darluniwyd gan Karen Tennent

2
Helo, fy enw i ydi Celine ac rwy'n wyth mlwydd oed. Rwy'n cael trafferth sefyll a cherdded. Mae Jean yn ffisio sy'n helpu i mi ymestyn fy nghoesau. Pan oeddwn yn bedair oed, dywedodd Jean wrthai ei bod eisiau i mi wisgo sblintiau arbennig ar gyfer fy nghoesau, fyddai'n fy helpu i sefyll a cherdded.

3

Maent wedi eu gwneud o blastig ac yn cadw eich traed a'ch fferau mewn safle da. Mae llawer o blant eraill yn ei gwisgo nhw hefyd, hyd yn oed fy ffrind Oran. Mae ei sblintiau yn wahanol i fy rhai i ac nid oes ganddynt unrhyw golfachau. Yr ydych yn gwisgo'r sblintiau dros eich sanau ac yna'n rhoi eich esgidiau drostynt.

Doeddwn i ddim eisiau eu gwisgo nhw ar y dechrau.



4

Roeddwn yn bryderus gan nad oeddwn yn gwybod beth oeddent. Roeddwn i eisiau parhau i wisgo fy 'nhrainers' pinc. Mae pob sblint yn cael ei wneud yn arbennig. Aeth mam â fi i'r ysbyty. Yr oeddwn ychydig yn ofnus, ond roedd y bobl yn neis yno. Mesurwyd fy nhraed ac yna cafodd cast plastr ei wneud gyda rhwymynnau gwlyb rhyfedd, oedd yn teimlo'n oer iawn. Ar ôl i'r rhwymynnau galedu fe'i torrwyd i ffwrdd gyda phâr arbennig o siswrn.

5

Dangoswyd llawer o sblintiau i mi, rhai mewn lliwiau gwahanol – hyd yn oed lliwiau'r enfys. Roedd rhai gyda cartwnau arnynt. Bu bron i mi ddewis rhai â phatrwm 'combat' fel yr rhai sydd gan Oran, ond yn y diwedd cefais rai pinc i fynd gyda fy 'nhrainers'. Pan oeddent yn barod, aeth mam â fi yn ôl i'r ysbyty.

6

Fe wnes i eu rhoi ymlaen ac roeddent yn teimlo'n rhyfedd y tro cyntaf ond bu'n rhaid i mi ddod i arfer eu gwisgo am ychydig bob dydd. Bu'n rhaid i mi ddweud os oeddent yn rhwbio. Ar ôl tua wythnos dechreuais eu gwisgo nhw drwy'r dydd. Dim ond am ychydig oriau ar y tro mae Oran yn gwisgo ei rai o.

7

Wrth gwrs rydym yn eu gwisgo pan fyddwn yn eistedd i lawr, ond hefyd pan ydym ar gefn ein beiciau, ac rydym yn eu gwisgo nhw i'r parc, pan fyddwn yn mynd i siopa, i bartïon ac yn yr ysgol. Rydym yn ei gwisgo ym mhobman!

A'r newyddion gorau oll, roeddent yn mynd yn dda gyda fy 'nhrainers' pinc. Rwyf wedi cael nifer o sblintiau ers hynny oherwydd pan fydd eich traed yn tyfu, mae'n rhaid i chi fynd yn ôl i'r ysbyty i gael rhai newydd. Y tro nesaf rwyf yn cael rhai gwyn i fynd gyda fy 'nhrainers' newydd!

Cysylltwch â ni am fwy o wybodaeth am Scope, ein gwasanaethau lleol, hyfforddi cenedlaethol a chyngor i bobl anabl.

Scope Response
www.scope.org.uk
0808 800 3333
response@scope.org.uk

scope

About cerebral palsy.
For disabled people achieving equality.

Mae 'In The Picture' yn hyrwyddo cynnwys plant anabl mewn llyfrau lluniau blynyddoedd cynnar.
www.childreninthepicture.org.uk

7912 Mae Scope yn elusen gofrestredig, rhif 208231. © Scope Chwefror 2011